

REES, ABRAHAM (1743 - 1825), gwyddoniadurwr

Enw: Abraham Rees

Dyddiad geni: 1743

Dyddiad marw: 1825

Rhiant: Esther Rees (née Penry)

Rhiant: Lewis Rees

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gwyddoniadurwr

Maes gweithgaredd: Gwyddoniaeth a Mathemateg

Awduron: David Williams, Llewelyn Gwyn Chambers

Ganwyd yn 1743 yn nh capel yr Annibynwyr, Llanbryn-mair, mab y [Parch. Lewis Rees](#) ac Esther Penry. (Yn ei erthygl ar [John Penry](#) yn ei *Cyclopaedia* dywed Rees : ' The editor of this *Cyclopaedia* traces his genealogy, by the maternal branch, to the family of [Mr. Penry](#). ') Bu am gyfnod cyn 1753 ym Mhencerrig, Llanelwedd, gyda John Evans, tiwtor preifat [Thomas Jones](#), yr arlunydd (1742 - 1803). Cafodd ei addysg yn yr ysgol a gedwid yn Llanfyllin gan [Dr. Jenkin Jenkins](#). Yn ôl [Thomas Jones](#) a fu'n gyd-ddisgybl ag ef yn Llanfyllin yn 1758 yr oedd yn 'deeply engaged' in Hebrew, Algebra, Logarithms and Fluxions' - ac yntau'n 15 mlwyd oed!

Yn 1759 aeth Rees i academi Coward, gan ddyfod yn athro mewn mathemateg a diwinyddiaeth naturiol yn ei hen goleg yn 1762, a dal y swydd hefyd wedi i'r academi symud i Hoxton a hyd y daeth yr academi i ben pan ymddiswyddodd ef yn 1785. Ar 31 Ionawr 1775 cafodd D.D. gan Brifysgol Edinburg. Yn ddiweddarach, 1786-96, bu'n athro Hebraeg a mathemateg yn y New College (byr ei hoedl), Hackney.

Yn y cyfamser buasai'n weinidog eglwys Bresbyteraidd S. Thomas yn Southwark (1768-83) a'r gynulleidfa yn Old Jewry (1783 hyd ei farwolaeth) yr adeiladwyd t cwrdd newydd iddi yn Jewin Street yn 1809. Dywedir mai ef oedd yr olaf o weinidogion anghydfurfiol Llundain i wisgo wig wrth wasanaethu. Daliodd ei gysylltiad â Chymru trwy fynychu cymaefoedd yr Annibynwyr a phregethu yn Gymraeg.

Golygodd Rees argraffiad, wedi ei helaethu, 1781-6, mewn pedair cyfrol, cwarto, o *Chambers's Encyclopaedia*; yn gydnabyddiaeth am y gwaith hwn etholwyd ef yn F.R.S. yn 1786. Wedi hynny dug allan waith llawer mwy cynhwysfawr, *The New Cyclopaedia*, a ymddangosodd mewn 45 o gyfrolau, cwarto, rhwng 1802 ac 1820, llawer ohono wedi ei ysgrifennu ganddo ef ei hunan. Yn Ariad o ran ei ddiwinyddiaeth, cadwodd ei ddiddordeb yn Anghydfurfiaeth Cymru. Trwy ei fod yn llywydd y ' Presbyterian Board,' yn un o ymddiriedolwyr cronfa [Dr. Williams](#), yn weinyddwr y 'regium donum,' ac yn gyfrwng y deuai rhoddion preifat trwyddo, bu'n abl i roddi llawer o gymorth i weinidogion anghenus yng Nghymru. Bu farw yn Finsbury, 9 Mehefin 1825, a chladdwyd ef yng nghladdfa Bunhill Fields.

Awduron

Yr Athro Emeritus David Williams, (1900 - 1978)

Dr Llewelyn Gwyn Chambers

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, gyda llyfryddiaeth

gwerthfawrogiad ohono yn *Public Characters of 1801-2* (London 1801-2), 549-75

marw-goffa y *The Gentleman's Magazine*, 1825, ii, 181-4

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

A. P. Oppé (gol.), 'Memoirs of Thomas Jones, Penkerrig, Radnorshire', *Annual Volume of the Walpole Society*, 32 (1951), 4

S. Rees yn *Cymru (O.M.E.)*, 25 (1903), 217

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Abraham Rees](#)

Delweddau

National Portrait Gallery: [Abraham Rees](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [76753602](#)

Wikidata: [Q922838](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

